LC535

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002, OS 2002 Rhif 2024 (W.208) (C.65)**

Mae’r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddwy ddarpariaeth yn Neddf Trafnidiaeth 2000 fel y nodwyd yn y nodyn esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i’w hadrodd o dan OS 11.5.

**Sylwadau**

Byddai wedi bod yn well pe bai’r pwerau a enwyd wedi cynnwys is-adran (i) adran 275 yn ogystal. Fel y noda geiriad is-adran (2), mae’r pŵer gwirioneddol yn is-adran (1). Ym mharagraff agoriadol y nodyn esboniadol mae’r cyfeiriad at ddarpariaethau Rhan II y Ddeddf braidd yn gamarweiniol oherwydd er bod dwyn i rym adran 274 yn gysylltiedig â Rhan II, nid yw adran 274 yn Rhan II.

Nodir bod dau wall yn y gorchymyn copi a gyflwynwyd i’r Pwyllgor wedi’u cywiro yn y fersiwn cyhoeddedig (hy. dyddiad anghywir yn y nodyn esboniadol a blwyddyn anghywir yn y rhagymadrodd). Fodd bynnag erys rhai gwallau gramadegol/teipograffyddol o hyd yn nhestun Cymraeg y nodyn esboniadol.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Hydref 2002